Gwirfoddolwyr o Wynedd oedd wedi eu henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2011

Yn flynyddol bellach, gwelir y Wobr arbennig yma fel cyfle i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Mae'r wobr yn cael ei gweinyddu gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ym mis Chwefror eleni, gosodwyd her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Mae pum categori sef:-

- person ifanc dan 25,
- oedolyn,
- gwirfoddolwr gwyrdd,
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol.

Eleni, derbyniwyd bron dros 230 o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd - un person ifanc, pum oedolyn, un ymddiriedolwr a dau Grŵp.

Categori person ifanc dan 25

Betsan Roberts – yn gwirfoddoli gyda Gwasanaethau Trais yn y Cartref, De Gwynedd.

Dechreuodd Betsan wirfoddoli tra yn fyfyriwr yn y Brifysgol, ac mae'n parhau i wneud hynny ar ôl iddi ddechrau gweithio yn llawn amser. Mae Betsan yn rhan o dîm sydd yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i rai sydd yn dioddef, neu wedi dioddef trais yn y cartref., ac mae ei chyfraniad yn werthfawr iawn. Mae'r tasgau mae'n eu cyflawni fel gwirfoddol wraig yn cynnwys bod ar ddyletswydd yn rheolaidd i dderbyn galwadau ar y llinell ffôn 24-awr, yn ogystal â chynnig cefnogaeth uniongyrchol i ferched a phlant gyda gweithgareddau therapiwtig.

(Wedi ei henwebu gan Gwenlli Haf - Cydlynydd Gwirfoddoli, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd)

Categori Oedolyn

Emma Cluer - yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog.

Mae Emma yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Tan y Maen - canolfan sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl - ers dros 10 mlynedd. Drwy ei hymroddiad i wirfoddoli, ei hagwedd hynod bositif a'i dyfalbarhad, mae Emma yn ysbrydoliaeth i ddefnyddwyr y Ganolfan ac i eraill. Er ei bod yn dioddef oddi wrth Barlys yr ymennydd ers yn blentyn, mae'n llwyddo i oresgyn ei phroblemau ei hun. Mae'n cynorthwyo gyda'r gwasanaeth 'Galw Heibio", trefnu gweithgareddau, croesawu defnyddwyr i'r Ganolfan yn ogystal â chynrychioli gwirfoddolwyr ar y Bwrdd Rheoli. Yn ei ffordd dawel ei hun, mae hi'n medru closio a sgwrsio, trafod problemau, a chefnogi'r defnyddwyr. Mae pawb yn Nhan y Maen yn ei gweld fel ffrind gwerthfawr - ac mae ei phersonoliaeth garedig, llawn hiwmor yn cyfrannu at yr awyrgylch hapus a gofalgar sydd yn y Ganolfan.

(Wedi ei henwebu gan Gareth Thomas, Cydlynydd Canolfan Tan y Maen).

John Jones - yn gwirfoddoli gyda Chaban Bach - Prosiect Barnardos.

Mae'r prosiect Caban Bach ym Mlaenau Ffestiniog yn cefnogi tadau i fod yn rhan allweddol yn natblygiad eu plant, a'i nod yw hyrwyddo amser hamdden o ansawdd i dadau a'u plant. Mae John yn gwirfoddoli gyda Chaban Bach ers dros dair blynedd - a'i brif rôl yw arweinydd gweithgareddau - yn arbennig felly sesiynau caiacio. Fel un o sylfaenwyr 'Clwb Padlo Blaenau', mae ei frwdfrydedd a'i arbenigedd yn y maes yn ysbrydoliaeth i eraill. Mae'n hyfforddi , annog, mentora ac yn gweithio'n galed - nid er clod - ond am ei fod yn mwynhau bywyd, ac yn mwynhau cyfrannu at wella bywydau pobl eraill. Yn wir, gyda'r enwebiad daeth llythyrau i'w gefnogi gan dri mudiad arall o'r Blaenau. Fel dywed un o'r llythyrau hynny "Bechod na fyddai mwy nag un John Jones yn yr ardal yma - ond byddai hynny yn amhosibl!"
Llongyfarchiadau John!

(Wedi ei enwebu gan Mr Francis Filzek - Prosiect Cefnogi Teuluoedd Barnardos)

Hugh Roberts – yn gwirfoddoli gyda Chymunedau'n Gyntaf Abermo.

Ar ôl i rywun farw, beth sydd yn digwydd i'w hen luniau? Eu taflu, mae'n debyg, a thrwy hynny - mae llawer o hanes lleol yn cael ei golli. Yng Ngorffennaf 2007, derbyniodd Cymunedau'r Gyntaf Abermo awgrym gan un o'r trigolion, sef Hugh Roberts, i sefydlu gwefan er mwyn casglu a chadw'r lluniau lleol. Mae Hugh wedi rhoi **oriau** o waith i'r prosiect, a gellir gweld ffrwyth ei lafur ar y wefan - y lluniau i gyd wedi eu categoreiddio dan benawdau megis y dref, ysgolion, breninesau'r carnifal a phobl leol, ac wedi eu trefnu yn gronolegol. Mae'n wefan boblogaidd iawn, a thrwy ei ymwneud â'r prosiect mae Hugh wedi dod i gysylltiad gyda phobl ar draws y byd. Mae'r prosiect hefyd wedi tynnu'r gymuned at ei gilydd - cynhelir boreau coffi i godi arian i'r Theatr Gymunedol, a bydd Hugh yno yn rhoi o'i amser i ddangos y lluniau ar sgrin fawr i bobl sydd heb eu gweld ar gyfrifiaduron.
Os oes rhywun yn haeddu cydnabyddiaeth am wirfoddoli - mae Hugh yn BENDANT ar ben y rhestr.

(Wedi ei enwebu gan Mrs Nan McCready - Cymunedau'n Gyntaf, Y Abermo)

June Taylor - yn gwirfoddoli gyda Thŷ Peblig, Caernarfon.

Fel gwirfoddolwraig, mae June yn rhedeg y Prosiect Bwyd Cydweithredol yn Nhŷ Peblig - prosiect sydd annog pobl i fyw yn iach, ac sydd yn gysylltiedig â'r Clwb Garddio. Mae hi hefyd yn helpu gyda digwyddiadau eraill megis Diwrnodau Hwyl, Noson Tân Gwyllt, a chinio Nadolig yn ogystal â bod yn rhan o Bwyllgor y Bartneriaeth. Drwy wirfoddoli, mae hi wedi helpu pobl Ward Peblig yn ogystal â hi ei hun - gellir gweld y gwahaniaeth yn ei hunanhyder a'i hagwedd at fywyd.
Llongyfarchiadau June!

(Wedi ei henwebu gan Linda Jones, Tŷ Pobl Peblig)

Julia Warrell – yn gwirfoddoli gyda Gwasanaethau Trais yn y Cartref, De Gwynedd.

Er bod gan Julia nifer o ymrwymiadau eraill, mae'n syndod sut mae hi'n llwyddo i fedru rhoi gymaint o'i hamser i wirfoddoli, ac i gefnogi'r mudiad hwn. Mae'n cludo defnyddwyr y Gwasanaeth i apwyntiadau ac yn hyrwyddo gwaith Gwasanaethau Trais yn y Cartref, De Gwynedd drwy fynychu digwyddiadau a rhannu gwybodaeth. Mae ei chyfraniad yn werthfawr ac yn haeddu cydnabyddiaeth - diolch yn fawr Julia!

(Wedi ei henwebu gan Gwenlli Haf – Cydlynydd Gwirfoddoli, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd)

Categori Ymddiriedolwyr

Rhian Ellis - yn gwirfoddoli gyda Gwasanaethau Trais yn y Cartref, De Gwynedd.

Mae Rhian yn wirfoddolwraig ffyddlon a dibynnol gyda Gwasanaethau Trais yn y Cartref, De Gwynedd ers dros naw mlynedd. Erbyn hyn, mae hi'n aelod o'r Bwrdd Rheoli ac yn parhau i roi cefnogaeth gyda materion ariannol y mudiad. Bu ei phrofiad o wirfoddoli yn hynod werthfawr wrth iddi lwyddo i arwain y Grŵp drwy gyfnod o newid sylweddol - i ddod yn gwmni cyfyngedig. Mae'n bleser rhoi cydnabyddiaeth iddi am ei hymroddiad a'i theyrngarwch i'r mudiad.

(Wedi ei henwebu gan Gwenlli Haf – Cydlynydd Gwirfoddoli, Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd)

Categori Grŵp

Grŵp Cymunedol Pobl Bangor.

Dyma grŵp o bobl weithgar sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau ac i greu bwrlwm ym Mangor. Ymhlith eu llwyddiannau mae Carnifal Bangor, sesiynau hyfforddiant, a chylch sglefrio ia i ddenu pobl i siopa yn y ddinas cyn y Nadolig. Mae'r Grŵp yn gweithio fel cymuned a hefo'r gymuned ym Mangor. Maent yn esiampl i grwpiau cymunedol eraill ac yn haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith da hyd yma.

(Wedi ei henwebu gan Siân Elin Powell - Balchder Bangor)

Yn y llun:, John Wyn Jones—Cadeirydd y Grwp yn derbyn y dystysgrif gan Mr Elfyn Llwyd AS

WRVS— Gwasanaethau Blaen Ysbyty Gwynedd.

Mae criw o wirfoddolwyr ymroddgar yn llwyddo i ddarparu gwasanaeth arbennig yn Ysbyty Gwynedd - rhoi gwybodaeth, cyfeirio pobl at wybodaeth, cyfarch ymwelwyr, cynorthwyo pobl i gael cadair olwyn, rhoi cyfarwyddiadau neu hebrwng pobl oddi fewn i'r Ysbyty, danfon negeseuon e-bost i gleifion, codi arian drwy gynlluniau ail-gylchu (hen ffonau symudol a chetris inc) - mae'r rhestr yn hir. Ond mae'r gwasanaeth yn llawer mwy na hyd y rhestr - ei werth mawr yw ei fod yn gwella profiadau pobl sydd angen cefnogaeth - yn aml iawn pobl sy'n wynebu sefyllfaoedd anodd neu bobl fregus. Enwebwyd y Grŵp hwn ar ran yr holl bobl sydd yn canmol y gwasanaeth a dderbyniasant gan y gwirfoddolwyr - yng ngeiriau un ohonynt - 'they should all be fitted with shining haloes"

(Wedi ei henwebu yn ffurfiol gan Dawn Cooper, Pennaeth Profiadau Cleifion, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr).

Rhaid peidio anghofio, ychwaith, y rhai sydd wedi cymryd y drafferth i enwebu'r unigolion, a'r grŵpiau arbennig yma - heb eu hymdrech hwy, ni fuasai'n bosibl rhoi clod i'r enillwyr eleni. Felly diolch yn fawr iawn iddynt hwy, a chofiwch - bydd cyfle i enwebu eto dechrau'r flwyddyn nesaf !!